*Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.*

# Gweithdrefn Sgrinio Ymgeiswyr a Dysgwyr sy'n Gyn-droseddwyr

## Cwmpas a Diben

1.1 Diben y weithdrefn hon yw sicrhau bod ymgeiswyr sydd ag euogfarnau troseddol heb eu disbyddu yn cael pob cyfle i ddilyn cwrs priodol yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro ar yr amod y gall y Coleg gynnal ei ddyletswydd i ddarparu amgylchedd diogel i'w ddysgwyr, staff ac ymwelwyr.

1.2 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i bob ymgeisydd llawn amser a rhan amser sydd ag euogfarnau troseddol heb eu disbyddu fel y'u diffinnir gan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1974) a'r diwygiadau i Ddeddf 1974 drwy Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022. Mae rhai proffesiynau wedi'u heithrio o'r Ddeddf hon ac o ganlyniad gall euogfarnau wedi'u disbyddu a heb eu disbyddu effeithio ar allu unigolyn i ymrestru ar gyrsiau penodol.

1.3 Mae datgelu euogfarnau heb eu disbyddu yn amod ymrestru ac ail-ymrestru a bydd gofyn i ddysgwyr ddatgelu euogfarnau heb eu disbyddu yn barhaus.

## Gweithdrefn

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i adsefydlu troseddwyr ac mae'n cefnogi eu hawl i addysg. Bydd y Coleg felly'n gwneud pob ymdrech i sicrhau bod ymgeiswyr sydd ag euogfarnau troseddol yn cael pob cyfle i elwa o'r rhaglenni astudio ar yr amod bod modd iddo sicrhau ei ymrwymiad diogelu i'r Coleg cyfan.

## Datgelu euogfarnau ar y ffurflen gais

Euogfarnau troseddol heb eu disbyddu yn unig y mae gofyn i ymgeiswyr eu datgelu ar y ffurflen gais a'r ffurflen ymrestru. Dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1974) gellir ystyried bod unrhyw euogfarn am drosedd wedi'i disbyddu ar yr amod:

- Bod cyfnod penodol wedi mynd heibio ers yr euogfarn ac nad yw'r ymgeisydd wedi aildroseddu yn ystod y cyfnod hwn. Cofnodwyd y cyfnodau penodol o amser yn y ddogfen ategol sy'n amlinellu'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1974).
- Mân droseddau moduro: Mae angen datgelu'r rhain ar ffurflen gais y Coleg.

Dylid datgelu unrhyw euogfarn a restrwyd ar y rhestr troseddau penodol i'r coleg.

Mae arweiniad pellach ar gyfnodau adsefydlu ar gyfer Cymru a Lloegr i'w gael yn y Canllaw ar y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 a Gorchymyn Eithriadau 1975 a Canllaw Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 NACRO. Mae'r Canllaw yn nodi y bydd y cyfnod adsefydlu ar gyfer dedfrydau o garchar yn dechrau o ddiwedd cyfanswm y ddedfryd a osodwyd gan y llys (yn cynnwys cyfnod y drwydded) - nid o'r amser a dreuliwyd yn y ddalfa (h.y. y diwrnod rhyddhau). Mae'r cyfnod adsefydlu'n cynnwys 'cyfnod clustogi' ychwanegol sy'n rhedeg o ddiwedd y ddedfryd. Pennir y 'cyfnod clustogi' hwn gan hyd cyfanswm y ddedfryd a osodwyd. Caiff 'cyfnodau clustogi' eu haneru i'r rhai dan 18 oed ar ddyddiad yr euogfarn. Cyfeiriwch at Ganllaw Nacro am wybodaeth ac arweiniad pellach.

## Gweithdrefn a Chanllawiau Asesiad Risg

- Bydd y Coleg yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc a phartneriaid priodol eraill yn y gymuned i gynnal asesiad risg teg a thrylwyr ar gyfer ymgeiswyr gydag euogfarnau heb eu disbyddu (Atodiad 1).

- Bydd ffurflen Datgelu Cofnod Troseddol gyda llythyr eglurhaol (Atodiad 2) yn cael eu hanfon at ymgeiswyr sy'n datgelu euogfarn heb ei disbyddu ar unrhyw gam o'r broses dderbyniadau.

- Bydd ymgeiswyr nad ydynt yn ymateb yn derbyn un atgoffâd i ddychwelyd y ffurflen ac os nad ydynt yn ymateb i hynny byddant yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig o fwriad y Coleg i dynnu eu cais yn ôl.

- Ni chaiff unrhyw ymgeisydd ei ymrestru yn y Coleg heb ddychwelyd y ffurflen, ac asesiad risg os yn briodol.

- Os daw i'r amlwg yn ddiweddarach nad yw'r dysgwr wedi datgan euogfarn heb ei disbyddu, gall y coleg ofyn i'r dysgwr adael.

## Datgelu Euogfarnau yn ystod y Cyfweliad Derbyniadau a'r gwiriadau DBS

Mae'r diwygiadau i'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 yn golygu bod rhai euogfarnau a rhybuddion yn cael eu hystyried yn rhai gwarchodedig. Er nad oes angen datgelu euogfarnau 'wedi'u disbyddu' ar y ffurflen gais neu ymrestru, bydd angen i ymgeiswyr ddatgelu pob euogfarn droseddol ar gyfer rhai cyrsiau Coleg yn ystod y cyfweliad derbyniadau oni bai eu bod yn rhai gwarchodedig yn unol â'r Ddeddf. Gofynnir i ymgeiswyr yn ystod y broses dderbyniadau wneud cais am ddogfen datgeliad manwl o'r

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar eu cost eu hunain.

Bydd hyn yn ofynnol ar gyfer cyrsiau:

- Sy'n arwain at broffesiynau a eithriwyd gan y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr, er enghraifft; addysgu, Gwaith Cymdeithasol, Gwasanaeth Heddlu, Gwasanaeth Prawf a'r Proffesiwn Cyfreithiol.

- Sy'n cynnwys cyswllt â phobl ifanc a/neu oedolion bregus, neu ymgymryd â gweithgarwch rheoledig o fewn ystyr Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, Deddf yr Heddlu 1997, Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, a Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000.

Mae'n **ofynnol** i ymgeiswyr ar gyfer cyrsiau o'r fath **ddatgelu pob euogfarn,** lle nad yw'r rhain wedi'u gwarchod/hidlo yn unol â'r Ddeddf. Gall methu â datgelu'r euogfarnau hyn yn ystod y cam derbyniadau arwain at wrthod eu cais yn ddiweddarach.

## Datgeliad ar ôl i'r cwrs ddechrau

Rydym yn cynghori pob ymgeisydd i ddatgelu euogfarnau cyn ymrestru fel y disgrifir uchod er mwyn ein galluogi ni i gwblhau unrhyw asesiad risg cyn i'r cwrs ddechrau. Os yw myfyriwr yn datgelu ar ôl i'r cwrs ddechrau, byddwn yn dilyn y gweithdrefnau fel y disgrifir uchod. Yn dibynnu ar natur y drosedd, efallai y bydd gofyn i'r myfyriwr ohirio ei astudiaethau neu dynnu allan o'r Coleg, wrth aros am ganlyniad unrhyw asesiad risg.

## Arweiniad gyrfaoedd proffesiynol a di-duedd

Yn unol ag ymrwymiad y Coleg i ragoriaeth mewn Addysg ac Arweiniad Gyrfaoedd, bydd ymgeiswyr sy'n datgelu euogfarnau troseddol yn cael gwybod am eu heffaith tebygol ar lwybr gyrfa dewisol. Serch hynny, mae'n bosibl i ymgeiswyr a fernir nad ydynt yn risg i gymuned y Coleg barhau i ymgymryd â'r rhaglen astudio honno os oes ganddynt amcanion ar wahân i chwilio am waith yn y proffesiwn penodol hwnnw.

## Anghenion cymorth cyn-droseddwyr

Mae'r Coleg yn gwneud pob ymdrech i gynnig amrywiaeth o wasanaethau cymorth i'w ddysgwyr ac mae'n ystyried y broses asesiad risg yn gam hanfodol o ran asesu'r amrywiaeth o anghenion a all fod gan gyn-droseddwyr. Mae'r cyfweliad asesiad risg felly'n cynnig cyfle gwych i drefnu unrhyw gymorth angenrheidiol o'r dechrau un er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl i ymgeiswyr lwyddo ar y cwrs o'u dewis.

## Cyfrinachedd a Diogelu Data

- Caiff asesiadau risg eu cynnal mewn modd sensitif, diffwdan a chyfrinachol, gan gymryd i ystyriaeth anghenion pawb dan sylw. Bydd gwybodaeth sensitif yn cael ei rhannu ar sail 'angen gwybod' yn unig.

- Caiff cofnodion eu cadw'n ddiogel, eu cyrchu gan staff uwch y Coleg yn unig, a'u dinistrio pan fydd dysgwr yn cwblhau ei gwrs neu'n gadael y Coleg, pa un bynnag yw'r cynharaf, neu ar ddiwedd y flwyddyn academaidd y daw ei euogfarn yn ddisbyddedig.

## Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i drin defnyddwyr ei wasanaethau'n deg, waeth beth fo'u hil, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, anabledd corfforol/meddyliol neu gefndir troseddol. Rydym yn rhagweithiol o ran hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan ystod amrywiol o unigolion gan gynnwys rhai ag euogfarnau troseddol. Caiff ymgeiswyr eu dethol ar gyfer cyrsiau yn seiliedig ar eu sgiliau, cymwysterau a phrofiad ac nid ar eu cefndiroedd na'u hamgylchiadau personol.

- Ni fydd cael euogfarn droseddol yn atal unigolyn rhag astudio yn y Coleg, ar yr amod nad yw'n peri risg i gymuned y Coleg.

- Mae canllawiau ar asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ac arfer gorau NACRO wedi'u hystyried wrth lunio'r weithdrefn hon.

## Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Mae goblygiadau iechyd a diogelwch sylweddol ar gyfer y Weithdrefn hon ac mae'r Coleg yn cadw'r hawl i gynnwys y Rheolwr Iechyd a Diogelwch ar y paneli asesiad risg ar gyfer y rhai sy'n datgelu euogfarnau heb eu disbyddu.

## Polisïau Cysylltiedig

- Derbyniadau
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Diogelu
- Addas i Astudio
- Rheoli Perthnasoedd â Dysgwyr
- Iechyd a Diogelwch
- Diogelu Data
- Addysgu, Dysgu ac Asesu
- Ansawdd

## Safonau'r Gymraeg

Mae'r weithdrefn hon yn cynnig cyfleoedd i unigolion ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg h.y. ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

## Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Canllawiau ar gyfer Asesu Risg Cyn-droseddwyr
- Derbyniadau
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Iechyd a Diogelwch
- Gweithdrefn Diogelu Data
- Diogelu

## Atodiadau'r Weithdrefn

Atodiad 2- Ffurflen Asesu Risg (ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi datgelu euogfarn droseddol)
Atodiad 2- Cwestiynau Cyffredin
Atodiad 3 - Ffurflen Datgelu Cofnod Troseddol - Ffurflen Gychwynnol i Ymgeiswyr yn dilyn Datgeliad

## Lleoliad a Mynediad at y Polisi

Mae hwn ar gael ar y wefan/ mewnrwyd staff/ Moodle, ac efallai na fydd yn gyfredol os yw wedi'i argraffu.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cymeradwyo: Medi 2024** | **Rheolwr sy'n Gyfrifol: Uwch Bennaeth Taith y Dysgwr** |
| **Cymeradwywyd gan: QSB** | **Arweinydd Gweithredol: Pennaeth Cynorthwyol, Ansawdd, Addysgu a Dysgu** |
| **Dyddiad adolygu: Medi 2026** | **Hygyrch i Fyfyrwyr: Ydy** |

# Atodiad 1: Ffurflen Asesu Risg 2024-26  (ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi datgelu euogfarn droseddol)

## CRD RISK MATRIX

| SIN | RISK TYPE | RISK DESCRIPTION | AGGRIVATING FEATURES | MITIGATING FEATURES | RISK SEVERITY | RISK LIKELIHOOD | IMPACT LEVEL | PARTY RESPONSIBLE | CONTROL MECHANISMS | ACCEPTABLE TO PROCEED? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |

**Head of Additional Learning Needs & Wellbeing**……………………………………………………………

**Dean of Qaulity Improvement**…………………………………………………………………………………

**Safegurding Co-ordinator**……………………………………………………………………………………

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

| | | SEVERITY | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | ACCEPTABLE<br>LITTLE TO NO EFFECT ON COLLEGE, LEARNERS OR STAFF | TOLERABLE<br>EFFECTS ARE FELT, BUT MANAGBLE WITH CONTROL MEASURES | UNDESIRABLE<br>SERIOUS IMPACT TO THE COLLEGE, LEARNERS OR STAFF | INTOLERABLE<br>RISK TOO MUCH TO MANAGE FOR COLLEGE, STAFF AND LEARNERS |
| LIKELIHOOD | IMPROBABLE<br>RISK IS UNLIKELY TO OCCUR | LOW<br>– 1 – | MEDIUM<br>– 4 – | MEDIUM<br>– 6 – | HIGH<br>– 10 – |
| | POSSIBLE<br>RISK WILL LIKELY OCCUR | LOW<br>– 2 – | MEDIUM<br>– 5 – | HIGH<br>– 8 – | EXTREME<br>– 11 – |
| | PROBABLE<br>RISK WILL OCCUR | MEDIUM<br>– 3 – | HIGH<br>– 7 – | HIGH<br>– 9 – | EXTREME<br>– 12 – |

| RISK TYPE |
|---|
| ROLE MODELING FOR LEARNERS |
| DAMAGE TO REPUTATION OF COLLEGE GROUP |
| INAPPROPRIATE COURSE CHOICE |
| RISK TO LEARNERS |
| RISK TO STAFF AND ALLIED PARTNERS |
| DAMAGE TO PROPERTY/RESOURCES/FINANCES |
| HIGH PROFILE OFFENDER/ KNOWN IN LOCAL COMMUNITY |
| NATURE OF OFFENCE DISCLOSED |
| ENGAGEMENT WITH STAUTORY SERVICES |
| WORK EXPERIENCE PLACEMENTS |
| ACCESS TO IT/INTERNET |
| ACCESS TO VOCATIONAL RESURCES (WORKSHOPS ETC) |
| AVAILABLE REOSURCES AGAINST RISK |
| PROPENSITY/PATTERN OF OFFENDING |
| LACK OF REMORSE |

| RISK SEVERITY KEY |
|---|
| ACCEPTABLE |
| TOLERABLE |
| UNDESIRABLE |
| INTOLERABLE |

| RISK LIKELIHOOD KEY |
|---|
| IMPROBABLE |
| POSSIBLE |
| PROBABLE |

| RISK LEVEL KEY |
|---|
| LOW |
| MEDIUM |
| HIGH |
| EXTREME |

| CONTROL MECHANISM |
|---|
| MAPPA CORE GROUP LEARNER |
| PROBATION RISK LEVEL |
| WORKING WITH EXTERNAL AGENCIES (PROBATION, POLICE, YOUTH OFFENDING, SOCIAL SERVICES) |
| INTERNAL SUPPORT MECHANISMS (ALN, WELLBEING) |
| LENGTH OF TIME SINCE OFFENCE |
| SAFETY PLAN |

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

**Atodiad 2: Cwestiynau Cyffredin 2024-26**
**(ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi datgelu euogfarn droseddol)**

# Datgeliad Cofnod Troseddol –

## Cwestiynau Cyffredin

**Sut fydd fy nata yn cael ei drin?**

1. Bydd y manylion y gofynnir amdanynt ar y ffurflen hon yn cael eu trin yn sensitif ac yn hynod gyfrinachol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a deddfwriaeth gysylltiedig.

**Beth yw'r broses ar gyfer asesu fy natgeliad?**

1. I ddechrau, bydd y wybodaeth ar y ffurflen hon yn cael ei phrosesu gan aelod dynodedig o'r tîm o Wasanaethau Myfyrwyr sy'n gyfrifol am ddatgeliadau CRD.

2. Bydd yr aelod dynodedig o'r tîm Gwasanaethau Myfyrwyr yn hysbysu'r tîm Diogelu a fydd, os yw'n briodol o ystyried natur y datgeliad, yn cynnal asesiad risg.

3. Os ystyrir bod asesiad risg yn angenrheidiol, bydd un o'r canlyniadau hyn yn digwydd;

- Gallwn brosesu eich cais.
- Gallwn ystyried eich cais ar yr amod eich bod yn cytuno i amodau neu gefnogaeth benodol.
- Ni allwn ystyried eich cais ar hyn o bryd.

**Beth ddylwn ei wneud os wyf yn gweithio gyda'r gwasanaeth prawf neu unrhyw wasanaeth statudol arall?**

1. Os ydych yn gweithio yn y gwasanaeth prawf, tîm troseddwyr ieuenctid neu unrhyw asiantaeth statudol arall, neu'n cael eich goruchwylio ganddynt, mae'n bwysig eich bod yn trafod eich bwriad i astudio yn y coleg a dangos iddynt y ffurflen ynghlwm.

**Ble allaf i ddod o hyd i ragor o wybodaeth?**

1. Mae'r elusen NACRO yn cynnig ystod o wybodaeth ar eu gwefan yn ogystal â chyngor cyfrinachol. Gellir cael mynediad at NACRO drwy fynd i www.nacro.org.uk, anfon e-bost i helpline@nacro.org.uk neu ffonio 0300 123 1999.

**Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn dychwelyd y ffurflen hon?**

1. Ni fydd unrhyw gais yn mynd ymlaen i'r cam ymrestru yn y coleg nes caiff y ddogfen hon ei dychwelyd ac os yw'n briodol, nes bod asesiad risg yn cael ei gwblhau. Mae gan y coleg yr hawl i dynnu'ch cais yn ôl os na chaiff y ffurflen ei dychwelyd.

**Ble ddylwn i ddychwelyd y ffurflen hon?**

1. Gallwch ddychwelyd y ffurflen hon mewn dwy ffordd.

2. Drwy'r post i:

   Julie Babb
   Recriwtio a Derbyniadau
   Coleg Caerdydd a'r Fro
   Campws Canol y Ddinas
   Heol Dumballs
   Caerdydd
   CF10 5FE

3. Drwy e-bost i: JBABB@cavc.ac.uk

**Atodiad 3 – Ffurflen Gychwynnol i Ymgeiswyr yn dilyn datgeliad..**

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

# Criminal Record Disclosure Form

Please complete all the sections below

## 1

| | |
|---|---|
| **Full Name:** | |
| **Date of Birth:** | |
| **Course Applied for:** | |

## 2

| |
|---|
| Please give details of all unspent offences for which you have been convicted.(Please include dates and any prosecution which you are currently facing) |
| |
| If you are applying for a course leading to work with children (under 18), vulnerable adults, social services, uniformed services or the health service, please also provide information on any spent convictions |
| |
| |
| |
| If you are on probation at the moment, please give us permission to discuss your case with your: Probation Officer, Drugs Worker, Youth Offending Officer, or any other appropriate person |
| Details of person to contact: |
| Address of person to contact: |
| Telephone number: |

## 3

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| I give you permission to discuss my case with the person named above as necessary | Yes | | No | |

I declare that to the best of my knowledge and belief, everything documented in this form is accurate and up to-date. I also authorise Cardiff and Vale College to make an application to obtain all previous convictions, should they be required.

**Signed:** **Date:**